OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 274

Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023

Swyddog cyfrifol

11.—(1) Rhaid i bob corff cyfrifol ddynodi person (y "swyddog cyfrifol") i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad effeithiol y weithdrefn gonestrwydd o ddydd i ddydd, ac yn benodol i sicrhau bod y corff cyfrifol yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r swyddog cyfrifol—

(a) yn achos Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG neu Awdurdod Iechyd Arbennig, fod yn berson sy'n swyddog-aelod neu'n gyfarwyddwr gweithredol yn y corff hwnnw, fel y bo'n briodol;

(b) yn achos darparwr gofal sylfaenol, fod y person sy'n gweithredu fel prif swyddog gweithredol y corff hwnnw neu, os nad oes un—

(i) y person sy'n unig berchennog ar y corff cyfrifol;

(ii) pan fo'r corff cyfrifol yn bartneriaeth, yn bartner;

(iii) mewn unrhyw achos arall, yn un o gyfarwyddwyr y corff cyfrifol, neu'n berson sy'n gyfrifol am reoli'r corff cyfrifol.

(3) Caniateir i swyddogaethau'r swyddog cyfrifol gael eu cyflawni gan y person hwnnw neu gan unrhyw berson a awdurdodir gan y corff cyfrifol i weithredu ar ei ran ar yr amod bod y person a awdurdodir felly o dan reolaeth a goruchwyliaeth uniongyrchol y swyddog cyfrifol.